Y POLISI MEWN PERTHYNAS Â'R DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Teitl y Polisi:	Polisi Rhyddid Gwybodaeth	
Perchennog y Polisi:	Y Cyfarwyddwr Llywodraethu	
Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:	Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol	
Pwrpas:	Sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth berthnasol	
Cylch Adolygu:	Bob dwy flynedd	
Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog):	**I'w weithredu gan:**	**Dyddiad:**
• **Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad (ELD)**	ELD	01.26
• **Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau**	Sian Pritchard / Lisa Fowlie	09.02.26
• **Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol**	Director of Governance	02.26
• **Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol)**	Sharon Bowker	Na
• **Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol)**	-	Na
• **Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol / SHE**	Sharon Bowker	04.26
• **Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau***	Director of Governance	18.04.26
• **Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd**	Director of Governance	23.04.26
• **Cyfieithu'r Polisi a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp**	Director of Governance	23.04.26
• Crynodeb o'r newidiadau:	Dim newidiadau sylweddol gyda mân ddiwygiadau teipograffig yn unig. Ychwanegu amserlen ar gyfer ceisiadau Mynediad Pwnc	

Y POLISI MEWN PERTHYNAS Â'R DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Cynnwys:

1 Cyflwyniad

2 Rolau a Chyfrifoldebau

3 Cynllun Cyhoeddi gweler: https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1131/definition-document-colleges-of-further-education.pdf

4 Hawliau Mynediad Cyffredinol

5 Ymdrin â Chais

6 Rheoli Ceisiadau ar y Dechrau

7 Ceisiadau Plagus ac Ailadroddus

8 Capio Costau

9 Pa un a yw'r Grŵp yn "cadw'r" wybodaeth ai peidio

10 Ffioedd

11 Eithriadau

12 Ymateb i Gais

13 Y Drefn Gwyno

14 Trosedd

15 Rheoli Cofnodion

Egwyddorion Trosfwaol:

Yn unol â Safonau Iaith Gymraeg y Grŵp, bydd unrhyw gais am wybodaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg, oni bai bod y person wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg.

Trwy gydol y polisi hwn, cyfeirir at weithdrefnau a chanllawiau Rhyddid Gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Os bydd gennych ymholiad, cysylltwch â Chyfarwyddwr Llywodraethu'r Grŵp (sy'n gweithredu fel Swyddog Rhyddid Gwybodaeth) am gyngor ac arweiniad cychwynnol.

Gallwch ddarllen rhagor yn:

https://www.gov.uk/make-a-freedom-of-information-request/the-freedom-of-information-act

1 Cyflwyniad

1.1 Yn amodol ar rai amodau ac eithriadau, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn darparu hawliau eang i bob math o wybodaeth “wedi’i chofnodi” a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus ers 1 Ionawr 2005.

Mae gan awdurdodau cyhoeddus fel Corfforaethau Addysg Bellach ddau brif ymrwymiad: yn gyntaf, rhaid iddynt gadw at gynllun cyhoeddi enghreifftiol; yn ail, rhaid iddynt ymateb i geisiadau gan unigolion ac endidau am wybodaeth ysgrifenedig benodol a gedwir gan y Grŵp. Mae Grŵp Llandrillo Menai (a elwir o hyn ymlaen yn "y Grŵp") a'r polisi hwn yn cefnogi'r egwyddor y dylai agwedd agored fod yn norm mewn bywyd cyhoeddus. Mae gan y Grŵp ymrwymiad i helpu a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i wella mynediad i wybodaeth. Cred y Grŵp hefyd fod gan unigolion hawl i breifatrwydd a chyfrinachedd ac nid yw'r polisi hwn yn newid y gyfraith gyffredin o ran dyletswydd cyfrinachedd neu ddarpariaethau statudol sy'n gwahardd datgelu gwybodaeth bersonol. Ymdrinnir â rhyddhau gwybodaeth o'r fath yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Mae’r polisi hwn yn berthnasol i bob cofnod sydd gan y Grŵp ac i bawb a gyflogir gan y Grŵp.

2 Rolau a Chyfrifoldebau

2.1 Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n atebol yn y pen draw am Ryddid Gwybodaeth ac am bopeth sy'n ymwneud â hynny. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu (sy'n gweithredu fel Swyddog Rhyddid Gwybodaeth) yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad a mynediad at wybodaeth. Mae aelodau'r Tîm Polisi a'r Tîm Strategol yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei drosglwyddo a'i weithredu yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymgyfarwyddo â'r polisi hwn. Disgwylir i'r holl staff:

- Fod yn ymwybodol o Gynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Grŵp a lle mae ar gael. Mae dolen ar gael yn www.gllm.ac.uk/cy/governance.
- Cadw at y Polisi hwn a'r holl systemau a phrosesau cysylltiedig er mwyn gweithredu'r Ddeddf, a
- Chwblhau unrhyw hyfforddiant fel y bo'n briodol

Gellir cael unrhyw gyngor neu gymorth mewn perthynas â'r polisi hwn neu'r Ddeddf gan Gyfarwyddwr Llywodraethu'r Grŵp: Toby G. Prosser: e-bost t.prosser@gllm.ac.uk, Ffôn: (07936) 930569.

3 Cynllun Cyhoeddi

3.1 Mabwysiadodd y Grŵp Gynllun Cyhoeddi enghreifftiol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cymeradwyo hwn. Mae'r Cynllun Cyhoeddi'n arf rhagweithiol i rannu gwybodaeth am fusnes y Grŵp, yn cynnwys gwybodaeth y bydd y Grŵp yn ei chyhoeddi'n rheolaidd neu y bwriada ei chyhoeddi yn y dyfodol. Disgrifia ym mha fformat y mae'r wybodaeth ar gael, gan nodi a godir tâl am y wybodaeth honno ai peidio. Gellir derbyn ar lafar neu'n ysgrifenedig geisiadau sy'n nodi'n benodol bod y wybodaeth a geisir wedi'i nodi yng Nghynllun Cyhoeddi'r Grŵp.

Mae copi o'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol presennol ar gael yn: https://ico.org.uk/media2/for-organisations/documents/definition-documents-2021/4018868/dd-colleges-of-further-education-20211029.pdf

4 Hawliau Mynediad Cyffredinol

4.1 Daeth hawliau mynediad cyffredinol i unigolion i rym ar 1 Ionawr 2005. Mae unrhyw gais ysgrifenedig am wybodaeth benodol yn gais Rhyddid Gwybodaeth dilys. Rhaid darparu enw a chyfeiriad er mwyn i'r Grŵp allu ymateb. Dylid nodi bod negeseuon e-bost a negeseuon testun yn ddulliau dilys o ofyn am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

4.2 Nid oes angen i'r sawl sy'n gwneud y cais gyfeirio at y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Felly, ym mron pob amgylchiad, bydd cais ysgrifenedig am wybodaeth benodol yn gais rhyddid gwybodaeth sy'n dod dan reolaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn y bôn, mae'r Ddeddf yn cwmpasu pob cais am wybodaeth ac mae'n gyfan gwbl ôl-weithredol.

4.3 Fel rheol gyffredinol, ni ddylid cwestiynau ceisiadau. Nid yw'r Ddeddf yn caniatáu gofyn i'r sawl sy'n gwneud y cais beth yw pwrpas y cais neu'r rheswm drosto. Ond, mae yn caniatáu cysylltu â'r sawl sy'n gwneud y cais i gael rhagor o fanylion am y wybodaeth a geisir, er mwyn manylu ar gais a fyddai, fel arall, yn gais annelwig neu gyffredinol.

4.4 Dylid cofio bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl i bobl ofyn am wybodaeth. Ond nid yw hyn yn hawl i ofyn am y dogfennau eu hunain.

5 Ymdrin â Chais

5.1 Rhaid anfon unrhyw geisiadau am wybodaeth a ddaw i law at y Cyfarwyddwr Llywodraethu a fydd yn cofrestru'r digwyddiad yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yna bydd ceisiadau yn cael eu cyfeirio at yr Uwch Reolwyr priodol i weithredu arnynt. Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu yn:

5.1.1 cadarnhau neu wadu bod y wybodaeth gan y Grŵp;

5.1.2 darparu'r wybodaeth, unwaith y bydd y cais wedi cael ei brosesu gan yr adran gywir;

5.1.3 cynghori a chynorthwyo pobl sy'n gwneud ceisiadau.

Mae hyn yn bennaf am y gall pobl wneud ceisiadau cyffredinol iawn neu fod yn ansicr ynghylch beth maent yn chwilio amdano. Felly, mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynghori a chynorthwyo pobl sydd wedi gwneud cais i fireinio eu ceisiadau.

1. Mae gan y Grŵp 20diwrnod gwaith, o ddyddiad derbyn cais, i ymateb iddo . Nid yw "dyddiau gwaith" yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc, ond fel all gynnwys cyfnodau gwyliau ysgol statudol. Mae dyddiau yn ystod yr wythnos pan fydd y Grŵp ar gau, ac eithrio gwyliau banc, yn dal yn "ddyddiau gwaith". Bydd Cais Mynediad Pwnc (SAR) yn cael ei ateb o fewn un mis calendr.

6 **Rheoli Ceisiadau ar y Dechrau**

6.1 Bydd llawer o geisiadau yn hawdd ymdrin â hwy. Byddant yn geisiadau arferol am wybodaeth y mae'r Grŵp wedi arfer ymdrin â hwy o ddydd i ddydd – nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn debygol o fod yn berthnasol yn achos cais am wybodaeth am gyrsiau; bydd yn fater syml o'r Grŵp yn ymdrin â'r cais. Yn achos ceisiadau mwy cymhleth, mae'n debygol y bydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol. Bydd yr arweiniad a roddir yma yn gymorth i ymdrin â cheisiadau o'r fath.

7 **Ceisiadau Plagus ac Ailadroddus**

7.1 Mae'n bosibl y gall y Grŵp wrthod rhai ceisiadau am eu bod yn geisiadau plagus neu ailadroddus. Bydd cymorth pellach ar gael trwy Gyfarwyddwr Llywodraethu'r Grŵp.

8 **Capio Costau**

8.1 Yn achos pob cais arall, bydd y Grŵp yn asesu i ddechrau a yw cost cael gafael ar y wybodaeth yn uwch na'r swm a bennodd yr Ysgrifennydd Gwladol. Ar hyn o bryd, yr uchafswm yw £450 (fe'i pennwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 ("Y Rheoliadau")). Yn ôl y Rheoliadau, os yw lleoli a chael y wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cymryd mwy na 18 awr, nid yw'r Grŵp dan unrhyw ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth, er y bydd gofyn iddo gadarnhau neu wadu bod y wybodaeth ganddo. Yng Ngweithdrefnau Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Comisiynydd Gwybodaeth, eglurir sut y cyfrifwyd y ffigur o £450 a sut mae'r capio costau'n gweithio'n ymarferol.

9 **Pa un a yw'r Grŵp yn "cadw'r" wybodaeth ai peidio**

9.1 Dim ond gwybodaeth a "gedwir" gan y Grŵp sy'n berthnasol i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Daw gwybodaeth sy'n eiddo i eraill ac a gedwir gan y Grŵp o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac mae'r un peth yn wir am wybodaeth sy'n eiddo i'r Grŵp ond a gedwir gan eraill.

9.2 Dylid nodi hefyd nad oes raid i'r Grŵp "greu" gwybodaeth er mwyn bodloni cais. Nid oes ond raid iddo ddarparu'r wybodaeth sydd ganddo.

10 Ffioedd

Pan fo'n rhaid i'r Grŵp ymdrin â chais, mae'n bosibl codi tâl am weinyddu. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i'r Grŵp hysbysu ei fod am godi ffioedd. Unwaith y rhoddir hysbysiad ynghylch ffioedd, bydd y cloc 20 diwrnod gwaith yn stopio. Ni fydd y cloc yn ailddechrau tan y bydd y sawl sy'n gwneud y cais wedi talu'r ffi. Os na fydd y Grŵp yn derbyn y ffi o fewn tri mis o roi hysbysiad o'r ffioedd, diddymir y cais. Eto, ceir rhagor o fanylion yng Ngweithdrefnau Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Comisiynydd Gwybodaeth.

11 **Eithriadau**

11.1 Mae'n bosibl y bydd rhai sefyllfaoedd pan fydd yn amhriodol datgelu gwybodaeth y gofynnir amdani. Er mwyn gwrthod cais, rhaid i'r Grŵp allu dibynnu ar un o'r 24 eithriad a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (gweler Atodiad 1). Mae'r dehongliad o'r eithriadau'n gyfyng iawn ac o'r herwydd nid yw llawer ohonynt yn debygol o fod yn gymwys i golegau Addysg Bellach. Felly, dosbarthwyd yr eithriadau'n rhai a fydd yn "debygol iawn", yn "bosibl" neu'n "annhebygol" o gael eu hystyried gan y Grŵp. Mae'n debygol y bydd y Grŵp yn gofyn am gyngor penodol mewn perthynas â defnyddio'r eithriadau dan rai amgylchiadau.

11.2 Ceir gwybodaeth bellach am yr eithriadau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth - www.ico.gov.uk

11.3 Rhennir yr eithriadau'n ddau gategori – eithriadau diamod ac eithriadau amodol. Y gwahaniaeth rhwng y ddau gategori yw bod eithriadau diamod yn ddibynnol ar brawf lles y cyhoedd. Golyga hyn fod yn rhaid i'r Grŵp, ar ôl iddo sefydlu bod eithriad diamod yn berthnasol iddo, ystyried a oes, yn holl amgylchiadau'r achos, fwy o les i'r cyhoedd o weithredu'r eithriad nag o ddatgelu'r wybodaeth.

12 **Ymateb i Gais**

12.1 Pan fo'n Grŵp yn ymdrin â chais, drwy'r Cyfarwyddwr Llywodraethu bydd yn:

12.1.1 cadarnhau neu wadu bod y wybodaeth ganddo;

12.1.2 Darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac a gafwyd gan yr adran neu'r Coleg priodol.

12.2 Pan fo'r Grŵp yn dibynnu ar eithriad diamod neu amodol i naill ai osgoi cadarnhau neu wadu bod y wybodaeth ganddo neu i osgoi datgelu'r wybodaeth, rhaid i'r Grŵp hysbysu'r sawl sy'n gwneud y cais bod y cais yn cael ei wrthod.

12.3 Rhaid rhoi hysbysiadau tebyg pan fydd y Grŵp yn gwrthod cais y credir ei fod yn flinderus neu'n ailadroddus neu lle byddai cost cydymffurfio â'r cais yn uwch na'r terfyn priodol.

13 **Y Drefn Gwyno**

13.1 Ymdrinnir â chwynion ynghylch cyflawni dyletswyddau'r Grŵp o dan y polisi hwn yn unol â'r Drefn Gwyno mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dylid cysylltu yn y lle cyntaf â'r:-

Prif Weithredwr
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
LL28 4HZ

13.2 Os bydd unigolion, yn dilyn ymdrechion i ddatrys eu cwyn yn lleol, yn parhau'n anfodlon ag ymddygiad y Grŵp, mae ganddynt hefyd hawl o dan y Ddeddf i gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr,
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

E-bost: wales@ico.org.uk

13.3 Pan fo'r Grŵp yn gwrthod cais ac yn cyflwyno hysbysiad, rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad ynghylch cwynion. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yng Ngweithdrefnau Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Comisiynydd Gwybodaeth.

14 **Trosedd**

14.1 Mae'n drosedd newid, difwyno, blocio, dileu, distrywio neu guddio unrhyw gofnod sydd gan y Grŵp gyda'r bwriad o atal datgelu gwybodaeth ar ôl derbyn cais rhyddid gwybodaeth (neu gais gan wrthrych y cofnod yn unol â Deddf Diogelu Data 1998).

14.2 Mae'r drosedd yn berthnasol i'r Grŵp ac i unrhyw un a gyflogir gan y Grŵp, swyddog yn y Grŵp neu unrhyw un sydd dan reolaeth y Grŵp. Mae'n bosibl i'r Grŵp (ar ffurf y Gorfforaeth) ac i unigolion gael eu dyfarnu'n euog.

15 **Rheoli Cofnodion**

15.1 Mae gan y Grŵp bolisi ar wahân, ynghyd a systemau a gweithdrefnau ategol, a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â Chod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor ar Reoli Cofnodion yn unol ag adran 46 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau ategol yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag ochr ymarferol rheoli cofnodion – eu creu, eu cadw, eu cynnal a'u gwaredu – yn unol â'r gofynion y mae'r gyfraith yn eu gosod ar y Grŵp.

Y DREFN GWYNO MEWN PERTHYNAS Â RHYDDID GWYBODAETH

TEITL Y POLISI: POLICY TITLE:	Trefn Gwyno y Polisi mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
CYFEIRNOD Y POLISI: POLICY REFERENCE NUMBER:	
RHIF YR ADOLYGIAD: ISSUE NUMBER:	5
UWCH-GYFARWYDDWR Â CHYFRIFOLDEB: RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:	Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS: PURPOSE:	Cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a mabwysiadu cynllun cyhoeddi enghreifftiol ar gyfer y sector
GOBLYGIADAU'R RISGIAU: RISK IMPLICATIONS:	Mae rheidrwydd ar y Grŵp i adolygu Trefn Gwyno ei Bolisi mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o dro i dro
EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD IMPACT ON BILINGUALISM	Unwaith y'i cymeradwyir, cyhoeddir y polisi'n ddwyieithog.
EFFAITH AR GYNALIADWYEDD IMPACT ON SUSTAINABILITY	Dim
ARGYMHELLIAD: RECOMMENDATION:	Derbyn a chymeradwyo'r Polisi
CYFATHREBU COMMUNICATION	Yn unol â'r rhestr wirio - drosodd
Y PWYLLGOR/GRŴP SY'N GYFRIFOL AM FONITRO: MONITORING:COMMITTEE	Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau / Y Bwrdd
CYMERADWYWYD GAN: APPROVED BY:	Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau / Bwrdd y Gorfforaeth
DYDDIAD CYMERADWYO APPROVAL DATE:	Diweddarwyd Ddiwethaf: Y Bwrdd - 04.24
DYDDIAD ADOLYGU REVIEW DATE CYCLE:	Ebrill 2026

Y Drefn Gwyno

Y drefn o ran adran 13 Polisi'r Grŵp mewn perthynas â Rhyddid Gwybodaeth, sef:

13.1 Ymdrinnir â chwynion ynghylch cyflawni dyletswyddau'r Grŵp o dan y polisi hwn yn unol â'r Drefn Gwyno mewn perthynas â Rhyddid Gwybodaeth. Dylid cysylltu'n gyntaf â'r:

Prif Weithredwr
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
LL284HZ

Os gwneir cwyn yn erbyn y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth, bydd y Prif Weithredwr yn penodi Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforol i ymchwilio i'r mater ac i adrodd yn ôl ymhen pythefnos, a bydd yn llunio ateb priodol i'r achwynydd. Fel arall, gall y Cyfarwyddwr Llywodraethu ymchwilio ac ymateb i unrhyw gwynion sy'n berthnasol i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn unol â chyfarwyddyd Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol neu'r Prif Weithredwr fel y bo'n briodol.

13.2 Os bydd unigolion yn parhau'n anfodlon ag ymddygiad y Grŵp, mae ganddynt hefyd hawl o dan y Ddeddf i gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond rhaid i hyn ddilyn ymdrechion i ddatrys eu cwyn yn lleol.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr,
Tŷ Churchill

Ffordd Churchill
Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067 8399

E-bost: wales@ico.org.uk

13.3 Pan fo'r Grŵp yn gwrthod cais ac yn cyflwyno hysbysiad, rhaid i'r hysbysiad gynnwys datganiad ynghylch cwynion.

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth ddyletswydd gyffredinol i ymchwilio i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd sydd o'r farn nad yw awdurdod wedi ymateb yn gywir i gais am wybodaeth. Os bydd rhywun yn gwneud cwyn yn erbyn y Grŵp, mae'r broses ymdrin â chwynion yn darparu cyfle i'r Grŵp ailystyried y camau a gymerodd ac i gywiro unrhyw gamgymeriadau heb i'r Comisiynydd Gwybodaeth orfod cymryd camau ffurfiol.

Os na chaiff y gŵyn ei datrys yn anffurfiol, bydd y Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi "hysbysiad penderfynu". Os canfyddir bod y Grŵp wedi gweithredu'n groes i'r Ddeddf, bydd yr hysbysiad penderfynu'n dweud bod gofyn i'r Gr**ŵp unioni pethau.**

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth rym i orfodi'r Grŵp i gydymffurfio os nad yw wedi mabwysiadau'r cynllun cyhoeddi neu os nad yw wedi cyhoeddi gwybodaeth fel y dylai, boed cwyn wedi'i derbyn ynglŷn â hynny neu beidio.

Gall y Grŵp fod yn torri'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth os yw'n gwneud unrhyw un o'r canlynol:

- ddim yn ymateb yn ddigonol i gais am wybodaeth;
- dim yn mabwysiadu cynllun cyhoeddi enghreifftiol, neu ddim yn cyhoeddi'r wybodaeth gywir; neu

- yn fwriadol ddinistrio, guddio neu newid gwybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn ei hatal rhag cael ei rhyddhau.

Y pwynt olaf hwn yw'r unig drosedd yn y Ddeddf y gall unigolion ac awdurdodau cyhoeddus gael eu cyhuddo ohoni. Mae tramgwyddau eraill a nodir yn y Ddeddf yn anghyfreithlon ond ddim yn droseddol. Ni all Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddirwyo'r Grŵp os nad yw'n cydymffurfio â'r Ddeddf ac ni all fynnu bod y Grŵp yn talu iawndal i unrhyw un yn sgil torri'r Ddeddf. Fodd bynnag, dylai'r Grŵp gywiro unrhyw gamgymeriadau cyn gynted ag y tynnir ei sylw atynt.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Siân Pritchard	**Dyddiad:**	09/02/2026
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		**Dyddiad:**	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi a'r weithdrefn hon yn y cylch adolygu diweddaraf. Pwrpas y polisi a'r weithdrefn hon yw sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio'n llawn â'i ddyletswyddau cyfreithiol ac yn cadw at ei ymrwymiad datganedig i fod yn sefydliad agored a thryloyw. Bwriad y weithdrefn yw sicrhau bod ceisiadau am wybodaeth yn cael eu cydlynu'n dda a lleihau'r risg y bydd pobl yn cael gwybodaeth sy'n gwrthdaro neu'n anghywir o wahanol ffynonellau. Unrhyw unigolyn/grŵp sy'n dymuno gwneud ymholiad Rhyddid Gwybodaeth. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar bwy all wneud cais Rhyddid Gwybodaeth. Gan ddibynnu ar y dull cyfathrebu, gallai gael effaith fwy andwyol ar y grwpiau hynny nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, grwpiau ag anableddau dysgu a grwpiau nad ydynt efallai'n gyfarwydd â'r dechnoleg berthnasol neu sydd â mynediad iddi.	Dylai'r Swyddog Llywodraethu ystyried anghenion y sawl sy'n gwneud y cais wrth benderfynu ar fformat yr ymateb.

Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Yn y Polisi, nodir fframwaith safonol i sicrhau y gweithredir	Mae rhwymedigaethau statudol o ran amseroedd ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond gall fformat yr ymatebion

	mewn modd cyson, teg a chyfiawn.	a'r tâl a godir fod yn hyblyg. Dylai'r Swyddog Llywodraethu ystyried anghenion y sawl sy'n gwneud y cais wrth benderfynu ar fformat yr ymateb.
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr y sefydliad a'r nod yw trin pawb yn gyfartal, beth bynnag yw'r nodweddion a warchodir. Ei bwrpas yw sicrhau nad oes dim yn rhwystro neb rhag cael mynediad i'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig na'u defnyddio.	
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir yn llawn at y polisi.	
A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Nac oes	
Casgliad	Parhau â'r Polisi a'r prosesau	

LLOFNOD:	Siân Pritchard	**Dyddiad:**	09/02/2026

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Siân Pritchard	**Dyddiad:**	09/02/2026
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		**Dyddiad:**	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi a'r weithdrefn hon yn y cylch adolygu diweddaraf. Mae croeso i unigolion sy'n gwneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth neu sy'n gwneud cwyn ynghylch cyflawni dyletswyddau'r Grŵp o dan ei Bolisi Rhyddid Gwybodaeth cyhoeddedig wneud y rhain yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â Rhyddid Gwybodaeth a wneir yn y Gymraeg yn cael ateb Cymraeg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.	
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg. Ni chredir y bydd yn cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg.	
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?	Mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar y Tîm Polisi a'r Tîm Strategol i weithredu'r polisi/weithdrefn.	
Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	N/A	

A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai?	Ydi. Mae'r polisi'n nodi bod ymgeiswyr yn gallu gwneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a byddant yn cael ymateb yn eu dewis iaith.	Dylai'r Swyddog Llywodraethu ystyried anghenion y sawl sy'n gwneud y cais mewn perthynas â'r Gymraeg wrth benderfynu ar fformat yr ymateb. Os gwneir cais Rhyddid Gwybodaeth am ddogfennau sydd ar gael yn y Gymraeg, yna dylai'r fersiwn Cymraeg fod ar gael i'r rhai a hoffai eu cael yn y Gymraeg. Dylid cofnodi dewis iaith (Cymraeg/Saesneg/dwyieithog) y sawl sy'n gwneud y cais.

Casgliad	Parhau â'r polisi a'r weithdrefn

LLOFNOD:	Siân Pritchard	**Dyddiad:**	09/02/2026

Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Lisa Fowlie	**Dyddiad:**	10/01/2024
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		**Dyddiad:**	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / camau rheoli arbennig
Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp?	Ni ddylai'r polisi hwn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp os dilynir y polisi ynghylch cynaliadwyedd a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Mae cyfle i wneud cais Rhyddid Gwybodaeth mewn perthynas â'r amgylchedd ac iechyd a diogelwch.	
Casgliad	Parhau â'r Polisi a'i brosesu	

LLOFNOD:	Lisa Fowlie	**Dyddiad:**	10/01/2026